**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 19 Hydref, 2010 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi**

**YN BRESENNOL**

Aelodau: Y Cyng. David Richardson, (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Y Cyng. Anne Lloyd Jones, (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. Dewi Owen, (Cyngor Gwynedd), Alun Wyn Evans, (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. Megan Reynolds, Cyngor Cymuned Aberdyfi), Y Cyng. Brian Bates (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Y Cyng. Ioan Thomas, (Cyngor Gwynedd), Mr Desmond George (Clwb Hwylio Aberdyfi), Mr W Bracewell (Partneriaeth Aberdyfi), Mr Nick Dawson (Outward Bound Wales),Mr Nigel Willis, (Clwb Cychod Aberdyfi), Y Cyng. Dave Williams, (Aelod o Bwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi).

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Huw Davies | - | Prif Beiriannydd |
| Mr Llyr Jones | - | Uwch Reolwr Economi a Chymuned |
| Mr Paul Edwards | - | Harbwr Feistr Aberdyfi |
| Mr Ioan Hughes | - | Swyddog Pwyllgor |
| Mrs Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd David Richardson yn Gadeirydd am y flwyddyn 2010/11. Diolchodd yr aelod am yr anrhydedd.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Dewi Owen yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2010/11. Diolchodd yr aelod am yr anrhydedd.**

**3. CROESO**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb oedd yn bresennol gan gyflwyno'r aelodau oedd yn mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor am y tro cyntaf sef: Y Cyng. Ioan Thomas, (Cadeirydd Pwyllgor Craffu Datblygu Cyngor Gwynedd), Y Cyng Megan Reynolds, (Cyngor Cymuned Aberdyfi) a'r Cyng. David Williams, (Aelod o Bwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi). Yn ogystal, croesawyd Llyr B. Jones, (Uwch Reolwr Economi a Chymuned) ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor) a oedd yn bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor am y tro cyntaf.

**4. Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Louise Hughes, (Cyngor Gwynedd), Mr Roger Lawson – Mole, (Aelod o Siambr Fasnach Aberdyfi), Mr Dylan Evans, (Aelod o Glwb Rhwyfo Aberdyfi), Mr Sam Wilding, (Cymdeithas Bysgotwyr Bae Ceredigion).

**5. Datgan Cysylltiad Personol**

Ni dderbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**6. COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 2 Mawrth, 2010.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

## 4. ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL A PHARCIAU GWLEDIG

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Aberdyfi gyda chyfeiriad arbennig at y canlynol:-

(i) Mordwyo ac Angorfeydd
(ii) Trwyddedau Perchnogion a Chychwyr
(iii) Ystadegau'r Harbwr
(iv) Cyllidebau'r Harbwr
(v) Cyfarfodydd Pwyllgorau'r Harbwr
(vi) Dyfroedd Ymdrochi
(vii) Wal y Cei
(viii) Ardal Storio Dingis

**Adroddwyd: (a) Gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig**

(i) mai siomedig fu tywydd prif dymor yr haf yn dilyn cychwyn ffafriol i'r flwyddyn. O safbwynt **mordwyo ac angorfeydd** nododd y swyddog fod buddsoddiadau sylweddol wedi eu gwneud i wella cyflwr y cymhorthyddion mordwyo.
Archwiliwyd yr holl gymhorthyddion mordwyo sy'n arwain i Harbwr Aberdyfi gan swyddog o Dŷ'r Drindod ar 21 Medi 2010 ac adroddodd y swyddog yn ddechreuol fod y cyfan o'r cymhorthyddion yn Aberdyfi yn cydymffurfio â safonau Tŷ'r Drindod. Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ymhellach fod archwiliad gweinyddol o'r holl gymhorthion mordwyo drwy Wynedd wedi ei gwblhau gan Dy'r Drindod ar 16 Medi 2010 a chafwyd cadarnhad fod y gwaith monitro misol o'r holl gymhorthyddion mordwyo hefyd o'r safon ofynnol. Fodd bynnag, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod y gwaith a wneir i wella a chynnal a chadw'r cymhorthyddion yn hynod gostus. Fel enghraifft o'r costau, nododd bod cadwyni cymhorthion mordwyo Aberdyfi wedi costio £3,500 hyd yma eleni gyda'r gost o wneud y gwaith yn £4,000. Ychwanegodd nad oedd gan yr Uned Forwrol yr adnoddau staff na chwch i wneud y gwaith heb benodi contractwr.
Pwysleisiodd fod angen ystyried y sefyllfa'n fanwl fel y gellir cael ffyrdd gwahanol i ymdrin â'r gwaith er lleihau costau.
Ychwanegodd y Swyddog fod angen cwblhau gwaith cynnal a chadw ar yr holl gymhorthion mordwyo yn ystod yr Hydref a'r Gaeaf a bod rhaglen waith wedi ei darparu gan yr Harbwr Feistr a'r Swyddog Morwrol Harbyrau.
Pwysleisiodd y swyddog fod bwiau tymhorol i atal cychod o rai mannau yn holl bwysig a bod angen ystyried ffyrdd o allu eu cadw yn y mannau priodol.
Derbyniodd aelodau fod y cymhorthyddion mordwyo wedi gweithio'n dda. Cytunwyd hefyd fod angen cynllun effeithiol er mwyn sicrhau lleoliad y bwiau tymhorol ar gyfer parthu rhan o ddŵr yr harbwr. Awgrymwyd y gellid defnyddio un prif angor gyda chadwyni'n eu cysylltu.

(ii) O safbwynt **Trwyddedau Perchnogion a Chychwyr** gofynnwyd am gymeradwyaeth yr aelodau i'r newidiadau oedd yn cael eu hargymell.
Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod pryder wedi cael ei ddatgan yn y gorffennol ynglŷn â pha offer sy'n cael ei gario ar gychod sy'n cael eu trwyddedu gan y Cyngor. Eglurodd ymhellach mai'r Cyngor sy'n rhyddhau trwydded ar gyfer cychod sy'n cario dim mwy na 12 o deithwyr a hynny mewn dyfroedd sydd wedi eu categoreiddio dan MSN - 1776. Pwysleisiodd fod rhaid cael cysondeb ar draws Gwynedd a bod pawb yn gytûn ynglŷn â'r rheolau sy'n gysylltiedig â rhyddhau'r trwyddedau yma.

Cyfeiriwyd yn yr adroddiad ymhellach at ddiffiniad clir o 'dywydd ffafriol'. Mewn cysylltiad â hyn, pwysleisiodd y swyddog mai cyfrifoldeb perchennog y cwch oedd penderfynu os yw'r tywydd yn

rhesymol ar gyfer teithio gyda'r cwch. Ychwanegodd na fyddai'n bosib i'r Harbwr Feistr dderbyn y cyfrifoldeb yma. Ymhelaethodd y Swyddog a chyfeiriodd at y camau sy'n cael eu cymryd a'r gofynion sy'n rhaid eu bodloni cyn y caiff trwyddedau perchnogion a chychwyr eu rhyddhau. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau i leisio barn ar y mater a nododd aelod y dylid cael peth hyblygrwydd parthed y cychod bychain sy'n gweithredu o fewn ffiniau'r harbwr. Cyfeiriodd yr aelod yn benodol at adlewyrchydd radar a nododd nad oedd yn bosib gosod yr offer yma ar rai cychod. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y gellid cael adlewyrchydd radar os yn briodol a derbyn na ellid gwneud hyn ar gychod os na fyddant yn addas.

Cadarnhaodd y Swyddog fod archwilwyr 'MCA' wedi ymweld â harbyrau Gwynedd yn ddiweddar a bod yr adroddiad a gafwyd yn nodi fod y trefniadau sy'n cael eu gweithredu gan y Cyngor yn gweithio'n effeithiol.

Cytunodd yr aelodau y dylid cefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd.

(iii) O safbwynt **ystadegau'r harbwr** nododd y swyddog fod 965 o Fadau Dŵr Personol wedi cofrestru gyda Chyngor Gwynedd yn 2010 o'i gymharu â 892 am yr un cyfnod yn 2009. Cofrestrodd 1389 o gychod pŵer gyda'r Cyngor yn 2010 gyda 714 o'r rhain yn cofrestru drwy ohebiaeth uniongyrchol gyda'r Swyddfa Forwrol. Cofrestrodd 1173 o gychod pŵer gyda'r Cyngor yn 2009 ac yr oedd y swyddog yn croesawu'r cynnydd a welwyd yn 2010.

Yn Harbwr Aberdyfi cofrestrodd 37 o gychod pŵer a 27 Fadau Dŵr Personol yn 2010. Ni fu'n bosib cofrestru yn Nhywyn oherwydd gwaith adeiladu yno, ond nododd y swyddog nad oedd hyn wedi arwain at gynnydd yn Aberdyfi.

Gwelwyf fod 97 o gychod pleser wedi eu hangori yn Harbwr Aberdyfi eleni o'i gymharu â 102 yn 2009. 'Roedd hyn yn golygu fod 80% o'r angorfeydd yn cael eu defnyddio yn 2010 O'r cyfanswm yma, defnyddiwyd 44% gan drigolion lleol sy'n byw yng Ngwynedd yn barhaol, gyda'r gweddill yn cael eu defnyddio gan unigolion sy'n byw tu allan i'r Sir.

Mynegwyd pryder gan aelodau oherwydd bod rhai yn talu'r ffi am angorfeydd ond yn peidio eu defnyddio. Er bod y Cyngor yn derbyn yr incwm, pwysleisiodd aelodau fod yr angorfeydd gwag yn golygu colled i Aberdyfi. Nodwyd ganddynt y dylid sefydlu trefn pryd y byddai'r rhai sy'n peidio defnyddio angorfa, er iddynt dalu amdani, yn derbyn rhybudd ar ddyddiad penodol ac yna'n colli'r angorfa pe na fyddai ymateb cadarnhaol yn cael ei dderbyn oddi wrthynt.

Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod angen adolygu'r sefyllfa fel y gellir cael cydbwysedd teg heb leihau'r incwm a geir o Harbwr Aberdyfi gan sylweddoli hefyd fod rhai gyda rhesymau dilys dros beidio defnyddio'r angorfeydd am gyfnodau. Cyfeiriodd y swyddog hefyd at yr angen i weithredu system y ffurflenni cais yn effeithiol, ond pwysleisiodd na fyddai'n rhesymol i'r Cyngor ganiatáu i ymyrryd â'r defnydd a wneir o angorfeydd preifat.

Cyfeiriodd aelodau ymhellach at leoliad rhai o'r angorfeydd a phwysleisiwyd fod nifer sylweddol yn yr Afon gyda llawer ohonynt heb gwch arnynt.. Rhybuddiwyd gan aelod hefyd y gallasai gostyngiad yn incwm yr Harbwr arwain at golledion o safbwynt swyddi.

Cadarnhaodd y swyddog y byddai'r mater yn cael ei ystyried yn fanwl ac y byddai'n cyflwyno adroddiad parthed y drefn o osod angorfeydd yn yr Harbwr yn y flwyddyn 2011/12.

Cyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol yn benodol at yr angen i hysbysebu'r Harbwr er mwyn denu ymwelwyr. Pwysleisiodd fod ymgyrch posteri yn ystod y Gwanwyn 2010 wedi bod yn hynod lwyddiannus. Dosbarthwyd 35 o bosteri a nododd y Cadeirydd fod 36 o gychod wedi ymweld ag Aberdyfi yn 2010 am gyfanswm o 58 noson. ' Roedd hyn yn cymharu â 11 o gychod yn ymweld â'r Harbwr am gyfanswm o 18 noson yn 2009.

Nododd hefyd fod gwerthiant disel yn Harbwr Aberdyfi yn dangos cynnydd o fwy na 1,200 litr.

Cyfeiriodd y Cadeirydd ymhellch at y pecyn croeso a roddwyd i'r cychwyr wrth iddynt gyrraedd yr Harbwr a phwysleisiodd fod yr holl ymdrechion wedi bod o fudd i'r economi leol a diolchodd i i'r Harbwr Feistr a'r Harbwr Feistr Cynorthwyol am y gwaith a wnaed ganddynt.

Pwysleisiodd ymhellach fod rhaid darparu ar gyfer y dyfodol fel y gellir sicrhau fod Harbwr Aberdyfi yn un o'r radd flaenaf fydd yn bodloni gofynion y cwsmeriaid.

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod yn gwerthfawrogi'r cydweithio a fu yn ystod misoedd yr haf ac y dylid cryfhau'r bartneriaeth yma er mwyn cryfhau'r ystadegau.

Cyflwynwyd gwybodaeth gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig o safbwynt **cyllidebau'r Harbwr** a thynnodd sylw penodol at y gyllideb o £13,530 a nodwyd mewn cysylltiad â chynnal a chadw'r Harbwr. Eglurodd nad oedd hwn yn rhan barhaol o'r gyllideb ond bod yr arian wedi ei ychwanegu dros dro er mwyn gwella cyfleusterau yn Harbwr Aberdyfi. Ychwanegodd mai ychydig dros £5,500 oedd yn weddill i gynnal yr harbwr dros fisoedd y Gaeaf .

Eglurodd y swyddog fod yr Harbwr yn agos i £15,000 yn fyr o'r targed incwm eleni. 'Roedd y swyddog yn rhagweld diffyg o thua £12,800 yn yr incwm am y flwyddyn yma. Yn sgil y sefyllfa yma bydd angen darganfod yr arian yma o'r gyllideb gwariant.

Yn ogystal cyfeiriwyd at ffigyrau 2009/10 a nodwyd fod y sefyllfa'n dangos diffyg o £6,500 yn yr incwm er bod y gwir darged yn dangos gwelliant.

O safbwynt **cyfarfodydd Pwyllgorau harbwr** esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod Cyngor Cymuned Aberdyfi wedi gofyn i Gyngor Gwynedd ystyried ychwanegu un cyfarfod i'r calendr. Cais y Cyngor Cymuned oedd i'r cyfarfod gael ei gynnal ar y cyd gyda chynrychiolwyr o holl Bwyllgorau Harbwr y Sir yn bresennol gyda'r cyfarfod yn cael ei gynnal hanner ffordd rhwng y cyfarfodydd a raglenwyd yn barod una ai yn ystod misoedd yr haf neu ar ddiwedd mis Rhagfyr/dechrau Ionawr.

Eglurodd y Swyddog nad oedd Pwyllgorau Pwllheli na Phorthmadog yn gweld budd o'r newid a awgrymwyd ond bod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw yn gefnogol i'r cais. Nododd ymhellach fod yr hawl yn bodoli i gynrychiolwyr o'r gwahanol bwyllgorau i fynychu cyfarfodydd pwyllgorau'r harbyrau eraill.

Ychwanegodd mai barn yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig oedd bod y drefn bresennol yn gweithredu yn unol â'r Adolygiad Porthladdoedd Bwrdeistrefol. Nododd hefyd fod bwriad i adolygu'r cyfansoddiad sy'n berthnasol i bob Pwyllgor Harbwr Ymgynghorol.

Ymhelaethodd y byddai angen ystyried unrhyw fanteision o gynnal cyfarfod ychwanegol, yr amcan o newid y drefn a'r costau fyddai ynghlwm ag unrhyw newid. Ychwanegodd y byddai'n anodd cael amser addas i gynnal y cyfarfod a nododd nad oedd y Gwasanaeth yn gweld unrhyw fudd o gynnal cyfarfod ychwanegol.

Eglurodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned fod y gwaith cychwynnol a wnaed gan y Gwasanaeth yn amlygu tri mater sef y Côd Diogelwch Harbyrau, yr angen i gysoni trefniadau mewn cysylltiad â'r 4 Pwyllgor Harbwr a'r angen i sicrhau fod trafodaethau a phenderfyniadau'r pwyllgorau harbwr yn cael eu cyflwyno'n ffurfiol i un o bwyllgorau'r Cyngor.

Ychwanegodd fod bwriad i gynnal trafodaethau pellach ac y byddai argymhelliad yn cael ei gyflwyno i'r aelodau yng nghyfarfod mis Mawrth.

Mynegwyd pryder gan aelod oedd o’r farn fod ardaloedd yn Ne Gwynedd yn cael eu hanwybyddu.  Credai felly y byddai cael un strategaeth ar gyfer Gwynedd gyfan o fudd ac y byddai Aberdyfi yn rhan o’r gweithgareddau.

Nododd yr  Uwch Reolwr Economi a Chymuned fod y gwaith o ddatblygu harbyrau yn hynod anodd gyda chyfyngiadau’n ddifrifol a chostau’n uchel.

Pwysleisiodd aelod arall y dylid sylweddoli gwerth holl borthladdoedd Gwynedd ac nid oedd am eu gweld yn dirywio. Yn sgil hyn, credai y byddai un llais cryf yn fanteisiol.

Nododd aelod arall fod tuedd i edrych yn ôl a bod angen cymryd camau cadarnhaol a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Pwysleisiodd y Cadeirydd ei gefnogaeth i’r cais a wnaed gan Gyngor Cymuned Aberdyfi gan nodi y dylid trefnu i ddau gynrychiolydd o bod Pwyllgor Harbwr i gyfarfod ddwywaith y flwyddyn.

Credai y dylid llunio’r pwyllgor newydd ar gyfer :

- trafod pryderon a sefyllfaoedd
- lunio cynllun ar gyfer marchnata harbyrau Gwynedd.
- lobio Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer cael lle yn sioeau cyngod Llundain a Southampton a chaniatau i holl gynghorau Cymru, sydd gyda harbyrau i fod yno i farchnata eu harbyrau.
- llunio strategaeth ar gyfer datblygu harbyrau ar gyfer y dyfodol
- siarad yn unedig gyda swyddogion a chynghorwyr Gwynedd i gefnogi’r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig tuag at gyrraedd targedau yr harbyrau

O safbwynt **dyfroedd ymdrochi** cyfeiriodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig at y Gyfarwyddeb Ewropeaidd Dyfroedd Ymdrochi fydd yn dod i rym yn 2015  fydd yn gosod gofynion hynod gaeth.  O ystyried safon anwadal dŵr ymdrochi Aberdyfi dros y 5 mlynedd diwethaf mae’n bosib y byddai’n cael ei ddosbarthu fel bod o safon wael dan y gyfarwyddeb newydd yn 2015.

Cyfeiriodd y swyddog at ymdrechion a’r llwyddiannau a fu yn y gorffennol parthed gwobrau traeth yn Aberdyfi. Fodd bynnag, mae ansawdd y dŵr ymdrochi yn creu pryder, ac er mwyn trafod oblygiadau cyfarwyddeb newydd 2015 ‘roedd Asiantaeth yr Amgylchedd yn awyddus i fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Mawrth 2011.

Ychwanegodd y swyddog fod ymholiadau wedi eu cynnal parthed y posibilrwydd o adnabod traeth ymdrochi arall  ac mai’r un a oedd yn cael ei ffafrio oedd Traeth Glasfor. Eglurodd y byddai’n bosib cael Baner Werdd ar gyfer y traeth yma. Pwysleisiodd y swyddog y byddai llwyddiant o’r fath yn rhoi cyhoeddusrwydd cadarnhaol i Aberdyfi.

**‘**Roedd yr aelodau’n barod iawn i gyfarfod cynrychiolwyr Asiantaeth yr Amgylchedd yn y cyfarfod nesaf. Cyfeiriodd aelod at drafferthion sy’n deillio o’r tiroedd a nododd fod y rhain efallai yn amharu ar ansawdd y dŵr ymdrochi.

Cadarnhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod ymholiadau’n cael eu gwneud gan Asiantaeth yr Amgylchedd parthed unrhyw y gallasai amaethyddiaeth fod yn ei gael ar y dŵr.

Nodwyd nad oedd gwybodaeth ar gael ar y pryd parthed safon y dŵr ar draeth Tywyn, ond nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod gwelliannau sylweddol wedi eu gwneud yno

Eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod archwiliad wedi ei gynnal i gyflwr **Wâl y Cei** a bod hyn ynghlwm â gosod pontŵn newydd ar ochr y wal fyddai'n hwyluso cychwyr o ddod i mewn i'r harbwr.

Ychwanegodd mai casgliad yr arolwg oedd bod gweddill oes y pentwr haenau sy'n cynnal wal y cei oddeutu 6 blynedd. Adroddwyd ymhellach y bydd Cyngor Gwynedd yn ystyried yr holl ddewisiadau posib gan fod wal y cei yn cael ei ystyried o bwysigrwydd mawr. Eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod ymholiadau'n cael eu gwneud i'r diffiniad cywir o'r wal sef a yw'n strwythur amddiffyn yr arfordir neu wal cei mwynderol. Gallasai hyn effeithio ar yr ariannu fydd ar gael pan fo'r pentwr haenau'n cael eu newid.

Yn sgil canlyniad yr arolwg, pwysleisiodd y Cadeirydd fod rhaid darparu'n ddiymdroi ar gyfer y dyfodol. Pwysleisiodd y dylid cael adeiledd modern gydag offer angenrheidiol ar gyfer y cwsmeriaid. Byddai'r rhain yn cynnwys pontŵn a phont fynediad, tapiau dŵr a chysylltiadau trydan.

Ychwanegodd y Cadeirydd fod achlysuron wedi bod yn yr haf pryd y gwelwyd babanod a chŵn yn cael eu codi i'r lan mewn bagiau a basgedi oddi ar gychod oedd yn ymweld â'r harbwr. Pwysleisiodd nad oedd hyn yn dderbyniol ac nid oedd am weld hyn yn digwydd eto.

Tanlinellodd ei ddymuniad i gael harbwr yn Aberdyfi fydd yn hwylus ar gyfer y defnyddwyr ac yr oedd yn credu y gellir sicrhau hyn trwy gydweithio a bod yn gadarnhaol.
Mynegwyd pryder gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig o safbwynt yr **ardal storio dingis** ac eglurodd fod yr Uned Forwrol wedi gosod rac storio cychod gweini ar ben y llithrfa yn 2009. Bwriad y rac yw galluogi'r rhai sydd gydag angorfa yn yr Harbwr i ddiogelu cwch gweini'r cwch hwylio yn agos at y man glanio.

Fodd bynnag, 'roedd y rac yn cael ei ddefnyddio fwyfwy gan geufadau. Er ei fod yn falch o weld ceufadau yn yr harbwr, pwysleisiodd y Swyddog fod hyn yn cyfyngu'r lle storio cyffredinol a ddylai fod ar gael i'r rhai sydd gydag angorfa yn yr harbwr. Oherwydd hyn 'roedd am gymryd camau i sicrhau trefn dderbyniol.

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r Cyngor Cymuned ynglŷn â lleoliad y **gloch amser a llanw** ar y lanfa**.** Gofynnwyd i'r Cyngor Cymuned gyflwyno adroddiad ar gyflwr strwythurol y lanfa a chadarnhawyd fod trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda pheiriannydd ar gyfer gwneud y gwaith.

Pwysleisiwyd na ddylai lleoliad y gloch gael unrhyw effaith niweidiol ar y lanfa.
Y bwriad yw cael 7 cloch ym Mhrydain a dewiswyd Aberdyfi fel un o'r lleoliadau.

Ar ddiwedd y rhaglen nodwyd gan gynrychiolydd **Clwb Cychod Aberdyfi** fod aelodau'r Clwb yn gwerthfawrogi cydweithrediad yr Harbwr Feistr a'r Harbwr Feistr Cynorthwyol. Mynegwyd peth pryder ganddo parthed rhai materion gan gynnwys trafferthion gyda rhai angorfeydd, llithrfa heb fod yn gwbl glir ar rai adegau a 'r anawsterau mae perchnogion cychod pŵer yn eu hwynebu wrth lansio'r cychod.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 12:15pm

**<u>CADEIRYDD</u>**